## Trefn y Rihyrsals

Cynhelir y Rihyrsal ym **METHLEHEM**
am 2.30 o'r gloch

Arweinydd: Delyth Evans

Chwefror 24

Mawrth 10

Mawrth 24

Sul y Blodau, Mawrth 31, 2.30 a 6.00

Arweinydd: Islwyn Evans

"Genau glan a gana'n glir"

---

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol

Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

# CYMANFA GANU

Yr Unfed ar bymtheg a phedwar ugain

a gynhelir yng

**NGHAPEL BETHLEHEM**
**GWAELOD Y GARTH**

**Dydd Gwener y Groglith, Ebrill 5, 1985**

Y cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

---

Arweinydd:

Islwyn Evans
Hen-dy-gwyn ar Daf

---

Cyfeilyddion:

Mrs. V.Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

---

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw
Ysgrifennydd: Robin D.N.Bateman, Ysw

"Genau glan a gana'n glir"

---

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol

Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

# CYMANFA GANU

Yr ail ar bymtheg a phedwar ugain

a gynhelir yng

**NGHAPEL BETHLEHEM**
**GWAELOD Y GARTH**

**Dydd Gwener y Groglith, Mawrth 28, 1986**

Y cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

---

Arweinydd:

Allan Fewster
Llangennech

---

Cyfeilyddion:

Mrs. V.Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

---

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw
Ysgrifennydd: Robin D.N.Bateman, Ysw

## Trefn y Rihyrsals

| | |
|---|---|
| Ionawr 18 | 2.30 |
| Chwefror 1 | 2.30 |
| Mawrth 1 | 2.30 |
| Ebrill 12 | 10.30 |
| Ebrill 12 | 2.30 |

**(Arweinydd: Delyth Evans)**

## Darllen a Gweddio

Bore: Bethan Williams (Radur)

Prynhawn: Simon Hammett (Ffynnon Taf)

Nos: Lois Jones (Radur)

"Genau glan a gana'n glir"

---

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol

Groeswen a Bethlehem

Rhaglen

# CYMANFA GANU

Y ganfed namyn un

a gynhelir yng

**NGHAPEL BETHLEHEM**
**GWAELOD Y GARTH**

**Dydd Gwener y Groglith, Ebrill 17, 1987**

Y cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

---

Arweinydd:

Rhys Jones
Rhuddlan

---

Cyfeilyddion:

Mrs. V.Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

---

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw
Ysgrifennydd: Robin D.N.Bateman, Ysw


Swyddogion y Pwyllgor

Cadeirydd - Y Parchedig T. J. Davies
Trysorydd - Christopher Powell
Ysgrifennydd - Robin D. N. Bateman

"Genau glan a gana´n glir"

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol
Groeswen a Bethlehem

# CYMANFA



a gynhelir yng
NGHAPEL BETHLEHEM
GWAELOD-Y-GARTH

Dydd Gwener y Groglith, 13 Ebrill 1990

Y Cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o´r gloch

Arweinydd;
RHISIART ARWEL, Creigiau

Oedfa´r Bore
i ddechrau am 10.30

Cadeirydd - Cefin Campbell

Darllen a gweddio - Eleri Knight
Sian Edwards

Oedfa´r Prynhawn
i ddechrau am 2.30

Cadeirydd - Y Parchedig Ifor Rees

Darllen a gweddio - Aled Huws
Sian Lowri Griffiths

Oedfa´r Hwyr
i ddechrau am 6.00

Cadeirydd - Y Parchedig T. J. Davies

Darllen a gweddio - Rhian Edwards
Ywain Derfel ap Rhys

DETHOLIAD O RAGLEN CYMANFAOEDD CANU 1989-90

Emynau´r Plant:

| | Rhif |
|---|---|
| Luckington | 1 |
| St. Augustine | 3 |
| Rhian | 4 |
| Can yr Haf | 5 |
| Southcott | 7 |
| Gwaredwr y Byd | 10 |
| Papageno | 12 |
| Telynau Bychain | 13 |

Emynau´r Oedolion:

| | Rhif |
|---|---|
| Montgomery | 25 |
| Sanctus | 26 |
| Rowena | 28 |
| Coronwch Ef! | 33 |
| Beatitudo | 34 |
| Siloa | 36 |
| St. Elizabeth | 38 |
| Teilo | 40 |
| Propior Deo | 49 |
| Cymod | 51 |
| Maes-y-Bryn | 58 |
| Gwaelod-y-Garth | 59 |
| Ystumgwadneth | 60 |
| Salm 51 | 62 |

ANTHEM..........................63
"Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn"

9.

Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu,
Meddwl am wlad heb goeden na llwyn,
Meddwl am awyr heb haul yn gwenu,
Meddwl am Wanwyn heb awel fwyn,
Diolchwn Dduw am goed a haul a blodau,
Diolchwn Dduw, rhown glod i'th Enw Di.

Meddwl am fyd heb un anifail,
Meddwl am gae heb wartheg ac wyn,
Meddwl am afon heb un pysgodyn,
Meddwl am wawr heb adar a'u swyn.
Diolchwn Dduw am dy holl greaduriaid,
Diolchwn Dduw, rhown glod i'th Enw Di.

Meddwl am fyd heb bobl i'w lenwi,
Pobman yn wag, y stryddoedd a'r tai,
Meddwl am dref heb draffig na hewlydd
Neb yma i garu, neb i faddau bai.
Diolchwn Dduw am deulu ac am ffrindiau,
Diolchwn Dduw, rhown glod i'th Enw Di.

10.

Caraf yr haul sy'n wên i gyd
Duw wnaeth yr haul i lonni'r byd.

Caraf y gwynt a'i gri uwchben,
Duw wnaeth y gwynt i sgubo'r nen.

Caraf y glaw a'i ddagrau hir,
Duw wnaeth y glaw i olchi'r tir.

Caraf y sêr uwch golau'r dref,
Duw wnaeth y sêr yn lampau'r nef.

Caraf y coed a'u hadar chwim,
Duw wnaeth fy mro yn gartref im.

Caraf fy Nuw a'i waith i gyd,
Creodd o'm cylch ei wyrth o fyd.

# Capel Bethlehem
# Cymanfa Ganu'r Plant
# Mawrth 5ed 1995

1.

Cytgan:
Popeth glân a phrydferth
A phob creadur byw,
Popeth doeth a rhyfedd,
Fe'u crewyd oll gan Dduw.

Pob blodyn bach sy'n agor,
Pob 'deryn bach a gân,
Efe a wnaeth y lliwiau
A'u gloyw adenydd mân.

cytgan:

Y mynydd o liw'r porffor,
Yr afon fach gerllaw,
Y machlud haul, a'r bore,
A'i fwyn oleuni draw.

cytgan:

Y prennau yn y goedwig
Y glaswellt yn y pant,
Y brwyn a'r lan yr afon,
A bwrlwm pêr y nant.

cytgan:

2.

Pwy wnaeth y sêr uwchben,
Y sêr uwchben, y sêr uwchben?
Pwy wnaeth y sêr uwchben?
Ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth yr adar mân,
Yr adar mân, yr adar mân?
Pwy wnaeth yr adar mân?
Ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y moroedd mawr,
Y moroedd mawr, y moroedd mawr?
Pwy wnaeth y moroedd mawr?
Ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y pysgod chwim,
Y pysgod chwim, y pysgod chwim?
Pwy wnaeth y pysgod chwim?
Ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y chi a fi,
Y chi a fi, y chi a fi?
Pwy wnaeth y chi a fi?
Ein Harglwydd Dduw.

3.
Kwmbayah, fy Nuw, kwmbayah,
Kwmbayah, fy Nuw, kwmbayah,
Kwmbayah, fy Nuw, kwmbayah,
O! Dduw, kwmbayah.

Rhywrai'n llefain, Dduw, kwmbayah,
Rhywrai'n llefain, Dduw, kwmbayah,
Rhywrai'n llefain, Dduw, kwmbayah,
O! Dduw, kwmbayah.

Rhywrai'n canu, Dduw, kwmbayah,
Rhywrai'n canu, Dduw, kwmbayah,
Rhywrai'n canu, Dduw, kwmbayah,
O! Dduw, kwmbayah.

Rhai'n gweddio, Dduw, kwmbayah,
Rhai'n gweddio, Dduw, kwmbayah,
Rhai'n gweddio, Dduw, kwmbayah,
O! Dduw, kwmbayah.

4.
Bid siwr, fe glywsoch chwi y plant
Y sôn am Ddewi, Dewi Sant;
Y Cymro da, a'r Cymro byw,
Fu'n mynd drwy'r wlad i sôn am Dduw.

Un tro ar adeg ddigon trist,
Ac yntau'n sôn am Iesu Grist,
Fe ddaeth colomen fach o'r nef,
A safodd ar ei ysgwydd ef.

Gwrandawai'r dorf yn syn yn awr,
Wedi'r golomen ddod i lawr;
Daeth swn o'r nef, fel gwynt drwy'r coed,
A chodai'r ddaear dan ei droed.

Ha'r dydd oedd hwn wnaeth Ddewi'n ben,
A dydd wnaeth Gymru'n Gymru Wen;
Mae'n weddus iawn i ninnau'r plant
I gofio Dewi, Dewi Sant.

5.
Pe bawn i yn seren fach loyw, lân
Yn gwenu ar fron y nos,
Mi fynnwn oleuo'r holl gonglau du
A'r ffordd sydd yn mynd i'r ffos.

Cytgan :
Er nad wyf fi na haul na lloer
I'r cread mawr i gyd,
Gall plentyn bychan lawenhau
Rhyw gornel bach o'r byd

Pan ddalio y nos y pererin gwan
Ar ganol yr anial mawr,
Mor felys yw golau y seren fach
Sy'n edrych o'r nef i lawr.

Cytgan :

O! Arglwydd, gwna finnau, dy blentyn bach,
Yn llawn o oleuni'r nef,
I helpu rhyw un sydd yn colli'r ffordd,
A'i arwain yn ôl i dref.

Cytgan :

6.
Abba, fe'th addolwn,
Ac o'th flaen ymgrymwn,
Ti a garwn.

Iesu, fe'th addolwn,
Ac o'th flaen ymgrymwn,
Ti a garwn.

Ysbryd, fe'th addolwn,
Ac o'th flaen ymgrymwn,

7.
Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw,
A'i gyfiawnder ef,
A'r pethau hyn yn ychwaneg roir i chwi,
Haleliwia, Haleliwia.

Cytgan : Haleliwia, Haleliwia,
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia

Nid ar fara'n unig bydd byw dyn,
Ond ar bob rhyw air
Ddaw o enau Duw ei hun,
Haleliwia, Haleliwia.

Cytgan :

Gofynnwch ac fe roddir i chwi,
Ceisiwch ac fe gewch;
Curwch ac fe agorir i chwi,
Haleliwia, Haleliwia.

Cytgan :

8.
Dyn da oedd Dewi, Dyn da oedd Dewi,
Dyn da oedd Dewi Sant, A ffrind i ni y plant.

Mynach ffein oedd Dewi,Mynach ffein oedd Dewi,
Mynach ffein oedd Dewi, A ffrind i ni y plant.

Athro da oedd Dewi, Athro da oedd Dewi,
Athro da oedd Dewi, A ffrind i ni y plant.

Dyn da oedd Dewi, Dyn da oedd Dewi,
Dyn da oedd Dewi Sant, A ffrind i ni y plant.